

TREFNAU AMDDIFFYFN PLANT

STAFF YSGOL

DIWYGIWYD 2008 AR Y CYD Â THREFNAU AMDDIFFYFN PLANT CYMRU GYFAN

Cyffredinol

Mae gan ysgolion ran bwysig wrth adnabod ac atgyfeirio achosion cam-drin honedig.

Cyfrifoldeb yr ysgol unigol yw cynyddu ymwybyddiaeth a sicrhau bod staff yn cael hyfforddiant a chynefino priodol.

Mae'n ddyletswydd ar yr Adran Dysgu a Chyflawniad i gadw golwg ar hyn yn y sefydliadau sy'n cael eu cynnal ganddo. Dyletswydd y Llywodraethwyr yw hynny mewn sefydliadau eraill, gan gynnwys Colegau ac Ysgolion a Gynhelir â Grant.

Dylai ysgolion a sefydliadau eraill fod â rhywun penodedig ar gyfer Amddiffyn Plant.

Dylai pawb sydd mewn cysylltiad â phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd, neu sy'n gweithio gyda hwy, fod wedi cael hyfforddiant amddiffyn plant i lefel gymesur â'u swyddogaeth a chyfrifoldebau.

Diffinio Cam-drin Plant

Mae plant yn cael eu cam-drin neu'n dioddef diffyg gofal pan fydd rhywun yn peri niwed, neu'n peidio â gweithredu i atal niwed. Fe all plant gael eu cam-drin mewn teulu neu mewn amgylchedd sefydliadol neu gymunedol, gan y rhai sy'n gyfarwydd iddynt neu, yn llai mynych, gan ddieithryn. Gall plant neu bobl ifanc hyd at 18 oed ddioddef camdriniaeth neu ddiffyg gofal a bod angen eu hamddiffyn trwy gynllun amddiffyn plant rhwng asiantaethau.

ADRAN A – Gweithredu'n Ddi-oed

Yr hyn sydd i'w wneud gan staff mewn ysgolion (gan gynnwys Meithrinfeydd)

- 1) Os bydd aelod o'r staff yn amau bod plentyn yn dioddef camdriniaeth neu mewn perygl o ddioddef camdriniaeth, rhaid hysbysu pennaeth yr ysgol (neu'r dirprwy os bydd yn absennol) o'r pryder ar unwaith.
- 2) Ar unwaith, dylai'r Pennaeth (neu ddirprwy os bydd yn absennol), neu rywun penodedig, hysbysu'r Gweithiwr Cymdeithasol ar Ddyletswydd yn Swyddfa leol yr Adran Diogelu a Chefnogi dros y ffôn.

Dylai hyn fod yn gyfle i drafod pa gamau sydd angen eu cymryd yn unrhyw achos unigol a **sut i gadw'r plentyn yn ddiogel**.

Cydsyniad y Rhieni – Dylid ystyried cael cydsyniad y rhieni cyn trafod atgyfeirio eu plentyn gydag asiantaethau eraill.

Mae eithriadau i hyn yn cynnwys:

- Lle gall camau o'r fath roi'r plentyn mewn mwy o berygl.
 - Posibilrwydd bygythion neu orfodaeth.
 - Colli tystiolaeth bwysig.
 - Dymuniadau'r plentyn nad yw rhiant neu rieni i gael eu hysbysu, ond bod y plentyn yn gymwys i wneud y penderfyniad hwnnw.
 - Rheolwyr Tîm yr Adran Diogelu a Chefnogi ar y cyd â'r heddlu ac nid y cyfeirydd fydd yn gwneud y penderfyniad a ddylid hysbysu'r rhieni neu beidio.
 - Bydd y rhesymau dros y penderfyniad yn cael eu cofnodi'n llawn.
- 3) Mae'n bwysig atgyfeirio gan gyfeirio at y "Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan".
 - 4) Dylid rhoi gwybodaeth am enw, cyfeiriad a dyddiad geni'r plentyn ac enw a chyfeiriad y rheiny gyda chyfrifoldeb rhiant a rhesymau dros y pryder.
 - 5) Os yw'r drafodaeth hon yn cael ei chadarnhau fel cyfeireb, dylid ei chadarnhau'n ysgrifenedig gan ddefnyddio "Ffurflen Atgyfeirio Gyffredin" yr Adran Diogelu a Chefnogi a'i nodi'n **GYDGYFRINACHOL**. Mae'n ddefnyddiol hefyd anfon copi at y Rheolwr Tîm Gwaith Cymdeithasol Addysg.
 - 6) Os yw'r Gweithiwr Cymdeithasol Addysg neu'r Brif Nyrs Ysgolion ar gael, efallai y gallant gynorthwyo gydag unrhyw weithredu di-oed sydd ei angen ond mae'n dal yn gyfrifoldeb y Pennaeth i sicrhau cymryd y camau a amlinellwyd uchod.
 - 7) Dylai'r Adran Diogelu a Chefnogi ddweud pa gamau fydd yn cael eu cymryd a'r hyn y dylai'r cyfeirydd ei wneud o ran cyfathrebu gyda rhieni, h.y. pryd y dylid cysylltu â'r rhieni a phwy ddylai wneud hynny.
 - 8) Fel arfer, bydd gofyn i gynrychiolydd yr ysgol a/neu'r Adran Dysgu a Chyflawniad fynychu unrhyw Gynhadledd Amddiffyn Plentyn sy'n dilyn.
 - 9) Pa un ai yw ysgolion yn mynychu neu beidio, bydd disgwyl iddynt gyflwyno adroddiad a dylai hwn fod ar gael i'r Cadeirydd / Cydgysylltydd Amddiffyn Plant Diogelu a Chefnogi 48 awr cyn y cyfarfod, gan gadw at wybodaeth ffeithiol yn hytrach na barn neu straeon. Mae'n arfer da rhannu unrhyw adroddiadau gyda'r teulu o leiaf ar y diwrnod cyn y gynhadledd.

- 10) **O ran cyfeireb newydd cyfrifoldeb y gweithiwr cymdeithasol ar ddyletswydd / rheolwr tîm gwaith cymdeithasol ar ddyletswydd yw hysbysu'r cyfeirydd o'r camau sy'n cael eu cymryd cyn pen 10 diwrnod gwaith fan bellaf.**
Pan fo cyfeirebau'n ymwneud ag achosion agored cyfrifoldeb gweithiwr cymdeithasol y plentyn neu'r tîm yw hynny.

Gall fod gofyn i'r gweithiwr cyflogedig neu broffesiynol unigol sy'n atgyfeirio wneud un neu fwy o'r canlynol, a dylai fod yn barod i'w gwneud:

Cyfrannu at drafodaeth neu gyfarfod strategaeth;

Cynorthwyo'r ymholiadau adran 47 amddiffyn plant;

Mynychu'r gynhadledd amddiffyn plant;

Paratoi adroddiad ysgrifenedig i'r gynhadledd amddiffyn plant;

Cyfrannu at yr asesiadau dechreuol a chraidd.

Anhysbysrwydd Proffesiynol

Ni all gweithwyr proffesiynol aros yn anhysbys wrth wneud cyfeirebau, er bod y cyhoedd yn gallu gofyn am hyn.

Mae Syr Ronald Waterhouse, 'Ar Goll Mewn Gofal', yn tynnu sylw at gyfrifoldeb holl weithwyr proffesiynol o ran amddiffyn plant:

“Dylid ystyried gwneud methiant aelod o'r staff i hysbysu bod aelod arall o'r staff neu rywun arall sydd â chysylltiad â'r plentyn yn cam-drin plentyn yn gorfforol neu rywiol, neu dan amheuaeth o wneud hynny, yn dramgwydd disgyblaethol pendant”.

GWEITHWYR CYMDEITHASOL ADDYSG, SEICOLEGWYR ADDYSG, ATHRAWON TEITHIOL AC UNRHYW STAFF ERAILL HEB FOD YNGHLWM WRTH YSGOLION

- 1) Os bydd honiad o gam-drin mewn ysgol, dylid hysbysu pennaeth yr ysgol ar unwaith o'r pryder a dylid dilyn y trefnau seiliedig ar ysgol.
- 2) Os yw'r honiad o gam-drin neu bryder “allan o'r ysgol” dylid dilyn ar unwaith yr un trefnau ag a ddisgrifiwyd ar gyfer Penaethiaid ysgol yn Adran A.
- 3) Dylai cyflogeion dan sylw hysbysu eu Rheolwyr Atebol o'r camau a gymrwyd a chadarnhau hyn yn ysgrifenedig i Reolwr Tîm y Gweithiwr Cymdeithasol Addysg ar y ffurflen atgyfeirio briodol.

Dylai'r cyfeirydd hysbysu pennaeth yr ysgol hefyd, ar y cyfle cyntaf, o'r hyn a wnaed.

ADRAN B

PAN HONNWYD BOD CAMDRINIAETH WEDI DIGWYDD YN CYNNWYS AELOD O STAFF DYSGU A CHYFLAWNIAD.

- 1) Pan fo honiad neu amheuaeth bod aelod o'r staff yng nghyflogaeth yr Adran Dysgu a Chyflawniad wedi cam-drin disgybl, dylid dilyn y drefn ganlynol.
- 2) Dylid hysbysu'r Pennaeth / Rheolwr (neu ddirprwy os yw'n absennol) ar unwaith.
- 3) Rhaid hysbysu holl amheuron o gam-drin i'r Adran Diogelu a Chefnogi neu'r Heddlu.
- 4) Rhaid i asiantaethau beidio â chynnal eu hymholiadau mewnol eu hunain ond eu hatgyfeirio fel y disgrifiwyd uchod. Rhaid i asiantaethau beidio â phenderfynu eu hunain a yw pryder ynghylch aelod arbennig o'u staff eu hunain yn fater disgyblu neu'n fater amddiffyn plant. Dylai ystyriaethau cymhleth o'r fath ddigwydd yn unig gyda chyfranogiad Diogelu a Chefnogi a'r Heddlu.
- 5) Os bydd honiad o gam-drin yn erbyn cyflogai unigol yn eu bywyd preifat, dylid cynnal ymholiadau amddiffyn plant yn unol â'r trefnau a ddisgrifiwyd yn y Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan.
- 6) Yn *Rheoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2006* mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi nodi'r gofyniad hwn am wasanaeth ymchwilio annibynnol. Erbyn hyn mae gofyn i ysgolion ddefnyddio gwasanaeth ymchwilio annibynnol o ran unrhyw broses ddisgyblaethol mewn cysylltiad ag athrawon. Diben y gwasanaeth ymchwilio annibynnol yw cefnogi cyrff llywodraethol ysgolion wrth iddynt ystyried mater disgyblu. Fodd bynnag, ni ddylid defnyddio'r elfen ymchwiliol annibynnol cyn cwblhau'r ymholiadau amddiffyn plant a/neu ymchwiliad yr asiantaethau statudol i drosedd.

ADRAN C

CAMAU I'W CYMRYD GAN STAFF YSGOL PAN FYDDANT YN PRYDERU AM SEFYLLFAOEDD NA CHWMPASWYD YN ADRANNAU A NEU B.

- 1) Gall achosion godi pan fo staff yn pryderu nad yw'r trefnau arferol yn berthnasol neu nad oes modd eu dilyn, e.e. os honnwyd bod y cam-drin yn cynnwys Pennaeth ysgol, Rheolwr neu aelod uwch o'r staff. Mewn sefyllfaoedd o'r fath:
 - a) Rhaid hysbysu'r Prif Swyddog priodol yn Adran Dysgu a Chyflawniad y Fwrdeistref Sirol ar unwaith.
 - b) Fel arall, dylid gofyn am gyfweliad "cydgyfrinachol" gyda'r Prif Swyddog priodol, Rheolwr Tîm Gwaith Cymdeithasol Addysg neu Bennaeth Addysg Gynhwysol.

ATODIAD A

SWYDDOGAETH Y CYDGYSYLLTYDD AMDDIFFYN PLANT / ATHRAWON PENODEDIG / AELODAU PENODEDIG O'R STAFF

Mae gan ysgolion ran werthfawr i'w chwarae yng nghyd-destun Amddiffyn Plant, yn enwedig yn y cyfnod adnabod ac atgyfeirio.

Mae "Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan" yn ei gwneud yn glir y dylai pob ysgol a choleg fod ag aelod penodedig o'r staff yn gyfrifol am gydgyssylltu materion amddiffyn plant ac, yn arbennig, i gadw cyswllt ag asiantaethau eraill. Mae gan yr unigolyn hwn swyddogaeth allweddol hefyd wrth gadw golwg ar weithredu cynlluniau, yn dilyn Cofrestru Amddiffyn Plant, yng nghyd-destun eu hysgol neu sefydliad.

Er mwyn cynorthwyo ysgolion a sefydliadau ddiffinio cyfrifoldebau'r unigolyn penodedig yn fwy eglur, amlinellwyd y manylion canlynol. Ni fwriadwyd i'r wybodaeth fod yn derfynol a dylid ei hystyried o fewn y cyd-destun ehangach sy'n cael ei amlinellu yng Ngweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan a phrotocolau Byrddau Amddiffyn Lleol.

Ystyriaeth Gyffredinol

Mae Amddiffyn Plant yn fater difrifol, yn enwedig i'r rhai hynny all fod yn ddiodefswyr neu sy'n ymwneud â chefnogi. Yn aml nid yw sefyllfaoedd yn ymddangos yn "ddu neu wyn" a bydd thyndrau'n bodoli rhwng asiantaethau yn aml.

Byddai'n ymddangos yn hanfodol, felly, y dylai'r unigolyn a enwebwyd neu a benodwyd fod â'r canlynol;

- a. Dealltwriaeth glir o bwysigrwydd Amddiffyn Plant a swyddogaeth yr ysgol neu sefydliad yn y broses hon.
- b. Gallu cyfathrebu'n effeithiol gydag asiantaethau eraill a gallu gwerthfawrogi holl safbwyntiau perthnasol.
- c. Gallu ymwneud yn dda gyda disgyblion, rhieni a chydweithwyr er mwyn cael eu hymddiriedaeth.
- d. Bod â statws neu gydnabyddiaeth ddigonol yn yr ysgol i allu gweithredu ar ran y sefydliad ac, mewn rhai achosion, i beri newid os bydd angen.
- e. Parodrwydd i ddatblygu ymwybyddiaeth o Amddiffyn Plant, yn enwedig trwy hyfforddiant a chael gwybodaeth sydd ar gael mewn trefnau, cylchlythyrau a chanllawiau presennol ac yn y dyfodol.

Yn benodol

Byddai swyddogaeth y cydgysylltydd / unigolyn penodedig yn cynnwys:

1. Sicrhau bod pob aelod o'r staff yn ymwybodol o'r Trefnau Amddiffyn Plant priodol a phwy yw'r athrawon penodedig. Mae hyn yn arbennig o bwysig i staff newydd.
2. Sicrhau bod y trefnau priodol yn cael eu dilyn.
3. Cadw cyswllt ag asiantaethau eraill dros achosion o gamdriniaeth honedig a hyrwyddo gweithio cydweithredol gan gynnwys presenoldeb mewn Cynadleddau Achos.
4. Yn sicrhau bod y swyddog cyswllt Amddiffyn Plant penodedig dros Ysgolion yn ymwybodol o unrhyw ddiffyg cyfathrebu neu broblemau gyda gweithredu trefnau lleol.
5. Cadw cofnodion priodol o ran achosion sy'n beri pryder a'r camau a gymrwyd wedyn.
6. **Yn sicrhau bod golwg yn cael ei gadw'n barhaol ar ddisgyblion y bu pryderon cam-drin yn eu cylch a/neu eu rhoi ar y Gofrestr Amddiffyn Plant a gweld bod cynllun ar eu cyfer yn cynnwys eu hysgol.**

ATODIAD B

Camdriniaeth Gorfforol

Gall camdriniaeth gorfforol gynnwys taro, ysgwyd, taflu, gwenwyno, llosgi neu sgaldian, boddi, mygu, neu'n achosi niwed corfforol fel arall i blentyn. Gall niwed corfforol ddigwydd hefyd pan fo rhieni neu ofalwyr yn ffugio neu'n peri salwch mewn plentyn sydd dan eu gofal.

Cam-drin Emosiynol

Cam-drin emosiynol yw camdriniaeth emosiynol barhaus o blentyn fel ag i achosi effeithiau andwyol difrifol a pharhaus ar ddatblygiad emosiynol y plentyn. Gall gynnwys cyfleu i blant eu bod yn ddiwerth neu ddigariad, yn annigonol neu o werth yn unig i'r graddau y maent yn diwallu anghenion rhywun arall. Gall olygu gorfodi disgwyliadau amhriodol o ran oed neu ddatblygiad ar blant. Gall olygu peri bod plant yn teimlo'n ofnus neu mewn perygl yn aml, er enghraifft trwy weld camdriniaeth deuluol yn y cartref **neu gael eu bwlio**, neu lygru neu gam-fanteisio ar blant. Mae rhywfaint o gamdriniaeth emosiynol yn gysylltiedig â phob math o gam-drin plant, er y gall ddigwydd ar ei ben ei hun.

Camdriniaeth Rywiol

Mae camdriniaeth rywiol yn golygu gorfodi neu ddenu plentyn neu rywun ifanc i gyfranogi mewn gweithgareddau rhywiol, boed y plentyn yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd neu beidio. Gall y gweithgareddau olygu cyffwrdd corfforol, gan gynnwys gweithrediadau treiddiol neu heb dreiddio. Gall gynnwys gweithgareddau heb gysylltu, fel cael plant i edrych ar, neu gyfranogi mewn, deunydd pornograffaid neu wyllo gweithgareddau rhywiol, neu annog plant i ymddwyn mewn ffyrdd rhywiol amhriodol.

Diffyg Gofal

Diffyg gofal yw peidio â diwallu anghenion corfforol a/neu seicolegol sylfaenol y plentyn yn barhaus, sy'n debygol o arwain at amharu'n ddifrifol ar iechyd neu ddatblygiad y plentyn. Gall olygu nad yw rhiant neu ofalwr yn darparu digon o fwyd, lloches a dillad, gan fethu gwarchod plentyn rhag niwed corfforol neu berygl, neu beidio â sicrhau mynediad at driniaeth neu ofal meddygol priodol. Gall hefyd gynnwys esgeuluso, neu ddiffyg ymateb i, anghenion emosiynol sylfaenol plentyn. Yn ogystal, gall diffyg gofal ddigwydd tra bo merch yn feichiog o ganlyniad i gamddefnyddio sylweddau.

ATODIAD C

Dadlennu / Honni Camdriniaeth

Os bydd pobl ifanc yn dadlennu eu bod yn cael neu wedi cael eu cam-drin, rhaid trosglwyddo'r wybodaeth hon. Os bydd pobl ifanc yn dadlennu camdriniaeth, dylai'r aelod o'r staff weithredu fel a ganlyn:

GWNEUD	PEIDIO Â GWNEUD
Gwrando ar y plant / pobl ifanc yn hytrach na'u holi'n uniongyrchol.	Rhwystro plant rhag sôn o wirfodd am ddigwyddiadau arwyddocaol.
Annog y plant / pobl ifanc i ganiatáu fod rhywun arall yn bresennol.	Dangos syndod neu anesmwythyd.
Tawelu meddwl y pobl ifanc nad arnynt hwy mae'r bai a'u bod yn iawn yn dweud.	Sicrhau cydgyfrinachedd.
Dweud wrth y plant / pobl ifanc y byddwch yn gorfod trosglwyddo gwybodaeth.	Rhoi geiriau yng ngheg y plant / pobl ifanc.
Gwneud cofnod ysgrifenedig o'r drafodaeth mor fuan ag y bo modd ar ôl i blant ddadlennu, gan gymryd gofal i gofnodi'r amser, lleoliad, personél / staff eraill yn ogystal â'r hyn a ddywedwyd.	Bod ofn gofyn am gefnogaeth rheolwr atebol. Fodd bynnag, oherwydd safon uchel y cydgyfrinachedd sy'n rhaid ei gynnal wrth amddiffyn plant, nid yw'n briodol trafod achosion unigol gyda chyfeillion personol neu gydnabod, rhag ofn y byddant yn gallu adnabod y teulu dan sylw.
Bod yn glir ynghylch eich sefyllfa eich hun, a'ch bod yn gweithio i Adran sydd â chyfrifoldeb dros amddiffyn plant a phobl ifanc.	Torri ar draws y plant / pobl ifanc.
Cadw unrhyw luniau, paentiadau ac ati y gall y plant / pobl ifanc eu tynnu i ddangos beth ddigwyddodd iddynt.	Amlygu'r plant / pobl ifanc i archwiliad torf o staff i ddilysu unrhyw anafiadau.
Aros yn dawel a chysurol.	Holi'r plant. Cofiwch mai gweithwyr proffesiynol a hyfforddwyd yn arbennig sy'n gorfod gwneud y gwaith hwn.

ATODIAD D

Gwybodaeth ychwanegol o'r Gweithdrefnau Cymru Gyfan newydd:

1 Yn ystod asesiad dechreuol, os bydd Diogelu a Chefnogi'n gweld nad yw plentyn oed ysgol yn mynychu ysgol, dylent rybuddio'r Adran Dysgu a Chyflawniad a sicrhau, yn y cyfamser, bod trefniadau gofalu a goruchwylio digonol ar gyfer y plentyn yn ystod y dydd.

2 Pan fo athrawon neu aelodau eraill y staff yn credu bod plentyn destun, neu mewn perygl o fod yn destun, salwch ffug neu wneud, dylid hysbysu'r athro neu athrawes gyda chyfrifoldeb penodedig dros amddiffyn plant ar unwaith. Fel gyda phob math o niwed sy'n cael ei amau, bydd *Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan* yn berthnasol a bydd yr athro penodedig / athrawes benodedig yn gyfrifol am atgyfeirio'n briodol i Ddiogelu a Chefnogi. Dylid cadw holl dystiolaeth berthnasol i'r pryder yn ddiogel rhag ofn y bydd ei angen i gynorthwyo penderfynu neu gyfrannu at unrhyw ymchwiliad o ganlyniad. Ni ddylai athrawon a staff eraill yr ysgol wneud eu hymchwiliadau eu hunain na thrafod y mater gyda rhiant / gofalwr y plentyn.